| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 02/05/2018 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 14/05/2018 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Safonau Masnach |
| **Man Gweithio:** | Cyngor i Gwsmeriaid a Datrys Anghydfodau |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 412248 |
| | **safonaumasnach@caerffili.gov.uk** |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Cyngor i Gwsmeriaid a Datrys Anghydfodau - Cwynion Cwsmeriaid |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych amdanoch chi'ch hun (data personol) pan fyddwch yn gwneud cwyn cwsmeriaid naill ai'n uniongyrchol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu os yw'ch cwyn wedi'i basio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan sefydliad arall. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Os ydych wedi cyflwyno'ch cwyn yn uniongyrchol i Safonau Masnach Caerffili neu i sefydliad arall yn y lle cyntaf, bydd yr adran hon yn esbonio'r categorïau o ddata personol a dderbynnir gennym a hefyd y mathau o sefydliadau a all wneud atgyfeiriadau.

### Categorïau o ddata personol a geir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion Cyswllt
- Natur a manylion y Gwyn (a all gynnwys dull a swm y taliad)

### Ffynhonnell y data personol

Rhoddwyd y wybodaeth hon yn uniongyrchol gennych , neu fe'i rhannwyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gan sefydliad arall fel:

Llinell Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth
Awdurdod lleol arall

# Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Diben y gwaith prosesu**

1. I asesu eich cwyn i sefydlu a all Safonau Masnach Caerffili eich cynorthwyo i ddatrys y mater.
2. Os gall Safonau Masnach gynorthwyo, bydd hyn yn cael ei gyflawni naill ai drwy roi cyngor sicr, cyfryngu â'r busnes neu'r unigolyn y cwynwyd amdano, rhoi cymorth gyda gweithredoedd ffurfiol drwy'r llysoedd sifil neu gyrff cyflafareddu, neu gynnal ymchwiliad troseddol. Os gall Safonau Masnach gynorthwyo, byddent yn cysylltu â'r busnes neu'r unigolyn i roi gwybod iddynt am y gwyn, a fydd yn golygu rhoi eich manylion personol iddynt.
3. Lle mae'r busnes neu'r person y gwnaethpwyd cwyn amdano wedi'i leoli mewn ardal Awdurdod Lleol arall, bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda Safonau Masnach o'r ardal honno, er mwyn cynorthwyo i ddatrys eich cwyn.
4. Pan na ellir cyflawni cymorth ond trwy gynnwys trydydd parti fel tystion arbenigol neu'r Llysoedd, bydd eich manylion hefyd yn cael eu rhannu gyda nhw.
5. Mewn perthynas ag ymchwiliadau troseddol a all gynnwys asiantaethau gorfodi eraill, efallai y bydd eich manylion hefyd yn cael eu rhannu gyda nhw. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili megis Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach Awdurdodau Lleol eraill a chyrff gorfodi megis yr heddlu.
6. Ar gyfer Dadansoddi ystadegol
7. I gysylltu â chi mewn perthynas ag arolygon Bodlonrwydd Cwsmeriaid

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Mae gofyniad tasg gyhoeddus ar awdurdodau cyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y manylir isod:

Bydd y ddeddfwriaeth sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn dibynnu ar natur cwyn y cwsmer ond gall gynnwys:

Deddf Menter 2002
Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol arbennig, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod:

6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os yw'r brosesu-
(a) Yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a
(b) Yn angenrheidiol oherwydd rhesymau o fudd sylweddol y cyhoedd.
(2) Y dibenion hynny yw -
(a) ymarfer swyddogaeth a roddwyd i berson drwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
(b) ymarfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Bydd Safonau Masnach Caerffili yn asesu'ch cwyn, ac os gellir rhoi cymorth, trafodir y manylion yn llawn â chi cyn cymryd unrhyw gamau.

Os teimlir bod maes gwasanaeth arall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn sefyllfa well i'ch cynorthwyo, bydd eich manylion personol yn cael eu trosglwyddo iddynt. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Diogelwch Cymunedol a Phriffyrdd.

Wrth geisio datrys eich cwyn, bydd eich manylion, gan gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, yn cael eu rhannu gyda thrydydd parti, fel y busnes neu'r person y gwnaethpwyd cwyn amdano, tyst arbenigol, cyrff gorfodi allanol eraill megis yr heddlu, dim ond ar ôl caniatâd penodol.

Gall Safonau Masnach Caerffili ddefnyddio'ch manylion personol i gysylltu â chi at ddibenion arolygon boddhad cwsmeriaid, er mwyn asesu a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Bydd gwybodaeth a ddarperir o ganlyniad i'ch cwyn yn cael ei defnyddio ar gyfer dadansoddi ystadegol, o fewn Cyngor Sir Caerffili ac yn allanol, ond mae canlyniadau'r dadansoddi hwn yn cael eu llunio fel nad yw eich manylion personol yn cael eu datgelu.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn cyngor bwrdeistref sirol Caerffili**

Gyda meysydd gwasanaeth eraill a allai fod mewn sefyllfa well i ddelio â'ch cwyn, e.e. Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Diogelwch Cymunedol, Priffyrdd.

**Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

- Efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu â chyrff gorfodi'r gyfraith at ddibenion atal neu ganfod troseddau neu arestio neu erlyn troseddwyr
- Efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda Gwasanaethau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol eraill (gan gynnwys Timau Rhanbarthol neu Genedlaethol) a allai fod mewn sefyllfa well i'ch cynorthwyo â'ch cwyn.
- Efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda busnesau neu unigolion yr ydych wedi cwyno amdanynt, er mwyn datrys eich cwyn orau.
- Os yw eich cwyn yn gofyn am fewnbwn oddi wrth drydydd parti fel tystion arbenigol, efallai y bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda nhw.
- Bydd eich manylion yn cael eu rhannu gyda'r Llysoedd os cychwynnir achos troseddol o ganlyniad i'ch cwyn.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

**Manylion y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Mewn perthynas â'ch gwybodaeth, bydd yn cael ei chadw am 7 mlynedd yn unol â Pholisi Cadw Dogfennau Gwarchod y Cyhoedd CBS Caerffili.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

**Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998**

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwynion**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth er mwyn eich helpu i ddelio â'ch cwyn. Gallai hyn olygu pasio eich cwyn i faes gwasanaeth arall o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili megis Iechyd yr Amgylchedd, Cynllunio, Diogelwch Cymunedol a Phriffyrdd neu awdurdod lleol arall a allai fod mewn sefyllfa well i ymchwilio i'ch cwyn.

Os gall Safonau Masnach gynorthwyo, bydd hyn yn cael ei gyflawni naill ai drwy roi cyngor sicr, cyfryngu â'r busnes neu'r unigolyn y cwynwyd amdano, rhoi cymorth gyda gweithredoedd ffurfiol drwy'r llysoedd sifil neu gyrff cyflafareddu, neu gynnal ymchwiliad troseddol. Os gall Safonau Masnach gynorthwyo, byddent yn cysylltu â'r busnes neu'r unigolyn i roi gwybod iddynt am y cwyn, a fydd yn golygu rhoi eich manylion personol iddynt. Pan na ellir cyflawni cymorth ond trwy gynnwys trydydd parti fel tystion arbenigol neu'r Llysoedd, bydd eich manylion hefyd yn cael eu rhannu gyda nhw.

Cedwir y wybodaeth a dderbyniwn am 7 mlynedd yn unol â'n Polisi Cadw.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}